



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Addasiadau i gyfyngiadau covid-19 – bellach mae'r swigod wedi dod i ben ac mae modd i holl ddisgyblion yr ysgol gymysgu yn yr awyr agored. Mae hyn yn hwyluso tipyn o'n trefniadau amser cinio ac yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion o wahanol flynyddoedd gymysgu a chymdeithasu. Mi fydd trefniadau hebrwng y plant i'r ysgol a'u casglu ar ddiwedd dydd yn aros yr un fath. Fodd bynnag mi fyddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n ofalus ac yn addasu'r trefniadau / swigod os fydd y niferoedd yn codi.

Achosion positif o covid-19 - ni ddylai disgyblion sydd â symptomau covid-19 fynychu'r ysgol. Mi fydd angen parhau i hunan ynysu am 5 diwrnod a chael 2 brawf LFD negyddol cyn dychwelyd.

Beicio, sgwtera, rhedeg neu gerdded ar ein llwybr lles – rydym yn awyddus i ail ddechrau'r arferiad o gael cyfnod o feicio, sgwtera, rhedeg neu gerdded pob ddydd Gwener yn nhymor yr Haf, Mae croeso i chi felly ddod â beic neu sgwter i'r ysgol pob ddydd Gwener er mwyn fod yn rhan o'r gweithgareddau. Cofiwch taw cyfrifoldeb y rhieni / gwarcheidwaid yw sicrhau fod y beic neu'r sgwter yn cyrraedd a gadael yr ysgol yn ddiogel. Os nad oes gennych feic neu sgwter yna mae croeso i blant i gerdded neu redeg.

Gŵyl y Banc Calan Mai – mi fydd yr ysgol ar gau ar ddydd Llun, Mai 2ail

COFIWCH - Côr Plant Ceredigion ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Tregaron (disgyblion Blynyddoedd 5 a 6) - mae gwahoddiad i blant Blynyddoedd 5 a 6 i fod yn rhan o gôr fydd yn perfformio yn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron ym mis Awst. Y bwriad yw i'r côr i gyflwyno dwy gân yn seremoni **Gwobr Goffa Daniel Owen** a gynhelir ar lwyfan y Pafiliwn ar brynhawn dydd Mawrth, Awst 2il. Os oes gan eich plentyn / plant ddiddordeb mewn cymryd rhan yna e-bostiwch ar prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk erbyn dydd Gwener, Ebrill 29ain.

Eisteddfod ysgol – mi fyddwn yn anelu i gynnal Eisteddfod ysgol ar ddydd Iau, Mai'r 19eg a dydd Gwener Mai'r 20fed. Yn dilyn asesiad risg covid-19 rydym am osgoi cael holl blant yr ysgol a'r staff yn y neuadd am ddiwrnod cyfan. Mi fyddwn yn trefnu Eisteddfod i'r Meithrin a'r Derbyn ar fore dydd Iau, Bl 1 a 2 ar brynhawn dydd Iau, Bl 3 a 4 ar fore Gwener a Bl 5 a 6 ar brynhawn Gwener. Rydym hefyd yn bwriadu cael pawb at ei gilydd tu allan ar y cae am 2.30 ar y dydd Gwener ar gyfer cystadleuaeth y côr mawr a seremoni'r coroni a'r cadeirio – rhagor o fanylion i ddilyn.

Clwb yr Urdd yn parhau am bedair wythnos – nos Fercher, 3.30 – 4.30yp

Dydd Mercher, Ebrill 27ain – Bl 2, 5 a 6

Dydd Mercher, Mai 4ydd - Bl 1, 3 a 4

Dydd Mercher, Mai 11eg – Bl 2, 5 a 6

Dydd Mercher, Mai 18fed – Bl 1, 3 a 4

Gwyliau Hanner Tymor – mi fydd yr ysgol yn cau am 3.30yp ar ddydd Gwener, Mai 27ain ac yn ail agor ar ddydd Llun, Mehefin 6ed.

Eisteddfod yr Urdd – dyma'r wybodaeth ddiweddaraf sydd gyda ni ar gyfer **amseroedd cychwyn cystadlaethau** penodol yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych.

Dydd Llun, Mai 30ain – Cerddorfa 10:05 a Chân actol 14:25.

Dydd Mawrth, Mai 31ain – Grŵp dawnsio creadigol 11:15, Grŵp dawnsio amlgyfrwng 14:10, Côr 16:20.

Dydd Mercher, Mehefin 1af – Dawnsio disgo unigol 9:00.

Mae'n bosib i'r drefn newid - rhagor o fanylion i ddilyn o safbwynt amseroedd perfformio penodol yr ysgol.

Gofynnir yn garedig i'r rhieni / gwarcheidwaid wneud trefniadau cludiant. Mae mynediad i'r Eisteddod yn rhad ac am ddim eleni ond mae angen i bawb gael tocynnau ar gyfer y diwrnodau y byddwch yn mynychu'r Eisteddfod. – [dolen i archebu tocynnau](#). Mi fydd yr ysgol yn trefnu ac yn argraffu tocynnau i'r disgyblion fydd yn cynrychioli'r ysgol.

Gŵyl Haf – eleni rydym yn anelu i gynnal digwyddiad yn yr awyr agored (tebyg i'r cyngerdd haf ond yn fwy anffurfiol) Mae'n debygol y bydd modd i chi ddod â phicnic, sedd neu flanced er mwyn eistedd ar y cae i wyllo'r plant yn perfformio ar lwyfan awyr agored – dewis 1 – nos Fawrth, Mehefin 14eg am 6 o'r gloch, dewis 2 - nos Fercher 15fed, dewis 3 - nos Iau, 16eg. Rhagor o fanylion i ddilyn.

Mabolgampau ysgol – dewis 1 – dydd Mawrth, Mehefin 28ain (2ail ddewis dydd Mercher, Mehefin 29ain, 3ydd dewis dydd Iau 30ain)

Noson Gymdeithasol / barbeciw – nos Iau, Gorffennaf 14eg.

Gwyliau'r Haf – mi fydd yr ysgol yn cau am 3:30yp ar ddydd Gwener, Gorffennaf 15fed.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

R C Williams, Pennaeth, 26/04/2022

(Scroll down for English version)



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Adjustments to the restrictions of covid-19 - the bubbles at school have now ceased and all the pupils can mix outdoors. This helps with our lunchtime arrangements and provides opportunities for pupils of different years to meet and socialize. Arrangements for escorting children to school and collecting them at the end of the day will remain the same. However we will continue to monitor the situation carefully and make changes to the arrangements / bubbles if numbers increase.

Positive cases of covid-19 - pupils with covid 19 symptoms should not attend school. It will be necessary to isolated for 5 days and have 2 negative LFD tests before returning.

Bike, scooter, run or walk on our wellbeing trail - we want to re-start the practice of having a cycle, scooter, run or walk activity every Friday in the Summer term. Pupils are welcome to bring a bike or scooter to school every Friday to take part in the activities. Remember that it is the parents'/ guardians' responsibility to ensure that the bike or scooter arrives and leaves the school safely. If you do not have a bike or scooter then children are welcome to walk or run.

May Bank Holiday - the school will be closed on Monday, May 2nd

PLEASE REMEMBER - Ceredigion Children's Choir for the Tregaron National Eisteddfod (Years 5 and 6 pupils) - Years 5 and 6 children are invited to be part of a choir that will perform at the Tregaron National Eisteddfod in August. The choir intends to present two songs at the Daniel Owen Memorial Prize ceremony which will be held on the Pavilion stage on Tuesday afternoon, August 2nd. If your child (ren) are interested in taking part then email at prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk by Friday, April 29th.

School Eisteddfod - we aim to hold a school Eisteddfod on Thursday, May 19th and Friday May 20th. Following a covid-19 risk assessment we wish to avoid having all the children and staff in the hall for a whole day. We will be organizing an eisteddfod for the Nursery and Reception on Thursday morning, Yr 1 and 2 on Thursday afternoon, Yr 3 and 4 on Friday morning and Yr 5 and 6 on Friday afternoon. We also plan to have everyone outside on the field at 2.30 on the Friday for the big choir competition and crowning and chairing ceremony - more details to follow.

Urdd Club will continue for four weeks - Wednesday, 3.30 - 4.30pm

Wednesday, April 27th - Yr 2, 5 and 6

Wednesday, May 4th - Years 1, 3 and 4

Wednesday, May 11th - Years 2, 5 and 6

Wednesday, May 18th - Years 1, 3 and 4

Half Term Holidays - the school will close at 3.30pm on Friday, May 27th and re-open on Monday, June 6th.

Urdd Eisteddfod - here is the latest information we have for the **start times of specific competitions** at the Denbighshire National Eisteddfod.

Monday, May 30th - Orchestra 10.05 and Action Song (Cân Actol) 14.25.

Tuesday, May 31st - Creative dance group (creadigol) 11.15, Multimedia dance group (amlygyfrwng) 14.10, Choir 16.20.

Wednesday, June 1st - Solo disco dancing 9.00.

The times may change - more details to follow regarding specific school performance times.

Parents / guardians are kindly asked to make transport arrangements. Entry to the Eisteddfod is free this year but you need to have tickets for the days that you are visiting the eisteddfod – [link to ordering tickets](#). The school will arrange and print tickets for all pupils representing the school.

Summer Festival - this year we are aiming to hold an outdoor event (similar to the summer concert but more informal) possibly you will be able to bring a picnic and a seat or blanket to sit on the field whilst children perform on an outdoor stage – first choice - Tuesday, June 14th at 6 o'clock, second choice Wednesday 15th, third choice - Thursday, 16th. More details to follow.

School sports – first choice - Tuesday, June 28th (second choice - Wednesday, June 29th, third choice - Thursday 30th)

BBQ / social evening - Thursday, July 14th.

Summer Holidays - the school will close at 3:30pm on Friday, July 15th.

If you have any worries regarding your child's wellbeing or education, then please contact me immediately.

R C Williams, Headteacher, 26/04/2022